**Gwybodaeth i Rieni** Thema y Tymor - Tri Mochyn Bach - Hydref /Gaeaf - Nadolig

## MEITHRIN / DERBYN BWRIAD Y DYSGU

Tyfu yn annibynnol. Mynegi a chyfleu eu teimladau. Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol. Ffurfio perthnasedd a chyd- chwarae a chydweithio.Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol .Dangos gofal a pharch at eraill a datblygu diddordeb yn eu hamgylchedd.

Ymestyn iaith.Gwrando ac ymateb yn briodol ac effeithiol .Chwarae dychmygol .Dilyn storiau. Datblygu gwybodaeth ffonolegol.Arbrofi gyda marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Dechrau gweld gwyddor yn sail i waith ysgrifennu. Cryfhau sgiliau pensel.

Deall rhif a nodiant rhif. Defnyddio rhifau yn naturiol yn eu chwarae a gweithgareddau megis caneuon, rhigymau. Defnyddio unedau ansafonol er mwyn cymharu mas , hyd, uchder .Adnabod siapiau yn eu hamgylchedd.TGCh –(graffio tai)Didoli a dosbarthu setiau o wrthrychau.

Dysgu am eu hardal leol ac am bellter a llwybrau.Dechrau adnabod nodweddion naturiol megis afonydd, bryniau ac adeiladau, ffyrdd a phontydd.Rhoi digwyddiadau mewn trefn ee yn ystod taith i'r ysgol. Dechrau mesur amser gyda clociau a chalendr.Arbrofi gyda deunyddiau cyffredin a'u grwpio. Datblygu sgiliau llawdriniol manwl.

Datblygu hyder a rheoli symudiadau y corff.Datblygu ymwybyddiaeth synhwyraidd.Defnyddio offer gwahanol er mwyn teithio - neidio a glanio, rholio, cadw cydbwysedd.
Datblygu y dealltwriaeth bod ymarfer corff yn gwella iechyd a ffitrwydd..

Cymysgu, siapio, trefnu a chyfuno deunyddiau er mwyn mynegi eu syniadau yn greadigol.Datblygu dealltwriaeth o liwiau, tôn,patrwm a siap.Canu ystod o ganeuon.
Chwarae patrymau rhythmig a melodig syml ar amrywiaeth o offerynnau.Datblygu eu hymatebion i wahanol symbyliadau megis cerddoriaeth, lluniau, geiriau.

Byddwn yn ddiolchgar iawn am eich cymorth a'ch cyd weithrediad yn ystod y tymor.